# Cwis y Beibl



Pan ddaeth yr alwad gan Elizabeth I i gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg, aeth William Morgan ati i wneud y gwaith anferth. Fe gymerodd **10 mlynedd** i'w gwblhau! Ar ôl iddo orffen yn 1588, cafodd tua 1,000 o gopïau o'r Beibl Cymraeg eu hargraffu. Dim ond tua 20 o'r rhain sydd ar ôl erbyn heddiw ac mae un ohonyn nhw yn Nhŷ Mawr, Wybrnant.

**1** Beth yw'r tri gair cyntaf (nid y teitl) yn yr **Hen Destament**?

**2** Beth yw enw'r ail lyfr yn yr **Hen Destament**?

**3** Sawl **Llyfr y Cronicl** sydd yn y Beibl?

**4** Beth yw enw'r **Efengyl** sydd rhwng **Efengyl Marc** ac **Efengyl Ioan**?

**5** Cwblhewch enw'r llyfr yma: 'DEU…………

**6** Mae dau lyfr yn yr **Hen Destament** sydd wedi eu henwi ar ôl merched. Beth ydyn nhw?

**7** Sawl **Llyfr y Brenhinoedd** sydd?

**8** Beth yw enw llyfr olaf y **Testament Newydd**?

**9** Caniad pwy sydd yn yr **Hen Destament**?

**10** Fe ddigwyddodd y rhan fwyaf o ddigwyddiadau'r Beibl ym mha ran o'r byd? Gogledd Ewrop? Dwyrain Ewrop? Canolbarth Asia neu'r Dwyrain Canol?

**11** Ar ddechrau **Llyfr Lefiticus**, gyda phwy mae Duw yn siarad?

**12** Yn **Llyfr Cyntaf Samuel**, gyda phwy mae Dafydd yn ymladd?

**13** Pwy yw tad **Jeremeia**? Darllenwch ddechrau'r llyfr.

**14** **Llyfr y Salmau** - Pennod 23 - *'Yr Arglwydd yw fy ………….'*

**15** Beth oedd oed Noa pan ddaeth y dilyw (*flood*)? (**Genesis 7**)

**16** Yn **Mathew** 2.1-2, pwy oedd y brenin pan gafodd yr Iesu ei eni?

**17** Beth oedd Iesu yn cael ei demtio i droi'r garreg i mewn iddi (**Luc** Pennod 4)?

**18** Ar ddechrau llythyr **Paul i'r Rhufeiniaid**, mae Paul yn was i pwy?

**19** Beth yw'r llinell olaf ar ddiwedd **1 Thesaloniaid**?

**20** Yn llyfr byr **Jwdas**, pwy yw ei frawd?

**21** Sawl llythyr sydd gan **Ioan** yn y Testament Newydd?